

CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

DYDD GWENER, 11 RHAGFYR 2020

Yn
bressenol: Cynghorydd John(Cadeirydd)

Cynghorwyr Colbran, Cowan, Cunnah, George, Henshaw,
Jarvie, K Jones, R Lewis, Y Cynghorydd Wendy Lewis a/ac
Smith

44 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Robson.

45 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

46 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11eg Medi 2020 fel cofnod cywir.

47 : ADRODDIAD AM Y CYFNOD RHWNG MEDI – 30 TACHWEDD 2020

Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ar waith, ymweliadau a chyflawniadau'r gwasanaeth am y cyfnod 1 Medi 2020 - 30 Tachwedd 2020; yr, Atodiadau sy'n rhestru derbyniadau nodedig, gwybodaeth am gasgliadau a'r ymholiadau diddorol.

Yn gryno, dywedodd yr Archifydd bod y cyfnod diwethaf wedi parhau i fod yn heriol i'r holl dîm yn Archifau Morgannwg. Fodd bynnag, yr oedd nifer o brosiectau a chyfleoedd cadarnhaol wedi dod ymlaen yn ddiweddar, ac mae'n dangos bod llawer o waith yn dal i ddigwydd er gwaethaf y pandemig. Mae'r tîm yn parhau i weithio'n galed ar waith presennol a chynllunio ar gyfer prosiectau sydd ar y gweill. Mae gwaith hefyd yn parhau ar gynllunio ar gyfer ailagor i'r cyhoedd pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau:

Cyfeiriodd yr Aelodau at ffigurau'r Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer mis Hydref a gofynnodd a oedd y rhain yn gywir. Dywedodd swyddogion eu bod yn gywir, roedd wedi bod yn fis arbennig o wael am ddim rheswm amlwg, ond bydd manteision olrhain ystadegau wrth symud ymlaen.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

48 : ADRODDIAD MONITRO MIS 7 AR GYFER 2020/21 AC ADRODDIAD Y GYLLIDEB 2021/22

Darparwyd amlinelliad i'r Aelodau o'r adroddiad gan gyfeirio at fonitro Mis 7 ar gyfer 2020/21 ac Adroddiad y Gyllideb ar gyfer 2021/22. Amlinellwyd yr holl benawdau

allweddol ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan y Cydbwyllgor.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd holl Swyddogion Adran 151 o'r Cyd-awdurdodau wedi gweld gwybodaeth am y cynnig cyllidebol ac a oeddent wedi ymateb. Esboniodd swyddogion eu bod i gyd wedi cael y wybodaeth a gofynnwyd iddynt ymateb cyn cyfarfod y Cydbwyllgor. Ni chafwyd ymateb ond cafwyd ychydig o gwestiynau mewn perthynas â chyllid Covid gan Lywodraethau Cymru; dim cwestiynau am gynigion y gyllideb eu hunain. Roedd yr Aelodau o'r farn efallai nad oeddent wedi cael digon o amser i ystyried y wybodaeth ac awgrymodd y dylid gohirio'r eitem hon i gyfarfod yn y dyfodol. Roedd Aelodau eraill yn cefnogi'r awgrym hwn yng ngoleuni'r ffaith bod ALlau yn ymgynghori ar y gyllideb ar hyn o bryd a bod cynnydd posibl yng nghyfraniadau'r ALI.

Roedd yr Aelodau'n pryderu'n fawr am sefyllfa'r trethi annomestig cenedlaethol; esboniodd swyddogion eu bod wedi bod yn sgwrsio â chydweithwyr yn yr Amgueddfa sydd hefyd am edrych ar y mater hwn yn fanwl. Mae'n ddarn enfawr o waith ac ni ellir ei wneud ar wahân. Bydd gwaith yn cael ei wneud ar draws y sectorau a Llywodraeth Cymru dros y flwyddyn nesaf ac mae'r Archifau'n bwriadu bod yn rhan o'r gwaith hwnnw.

Gofynnodd y Cadeirydd i adroddiadau cyllideb wedi'u diweddarau gael eu dosbarthu i Gyd-aelodau'r Cydbwyllgor rhwng cyfarfodydd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am unrhyw faterion.

PENDERFYNWYD: gohirio'r eitem i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn galluogi Swyddogion A151 mewn Cyd-awdurdodau i ymateb yn llawn i Gynigion y Gyllideb.

49 : ADRODDIAD Y CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Amlinellwyd yr Adroddiad ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i'r Aelodau, ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Gyd-aelodau'r Cydbwyllgor.

Roedd yr Aelodau o'r farn ei bod yn syniad da gweld y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar hyn o bryd, ond byddai hyn yn cael ei ystyried eto mewn cyfarfod yn y dyfodol ar ôl trafodaeth bellach gyda Swyddogion A151 o Gyd-awdurdodau.

Dymunodd y Cadeirydd ddiolch i swyddogion am adroddiad manwl, a diolch i'r holl staff am eu gwaith caled.

PENDERFYNWYD: gohirio'r eitem i gyfarfod yn y dyfodol.

50 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 26 MAWRTH 2021 AM 2.00PM

Dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen i bawb a mynegodd ei gydymdeimlad ag unrhyw un a oedd wedi colli anwyliaid eleni.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 pm